OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1807 (Cy.175)

## AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006, O.S. 2006/3342 (Cy. 303). Mae'r diwygiadau yn disodli'r cyfeiriadau at "y ddeddfwriaeth Gymunedol" gyda chyfeiriadau at "deddfwriaeth yr UE"(deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd), ac yn diweddaru'r rhestr o'r cyfryw ddeddfwriaeth yn O.S. 2006/3342 (Cy. 303) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2900 (Cy. 251).

Ni pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan mai ymwneud â'r trefniadau presennol ar gyfer apelau y mae'r diwygiadau a gwmpesir gan y Rheoliadau hyn.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 1807 (W.175)

## AGRICULTURE, WALES

## The Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) (Amendment) Regulations 2010

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations make further amendments to the Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) Regulations 2006, S.I. 2006/3342 (W. 303). The amendments replace the references to "Community legislation" with references to "EU legislation"(European Union legislation), and update the list of such legislation in S.I. 2006/3342 (W. 303) as amended by S.I. 2007/2900 (W. 251).

A Regulatory Impact Assessment has not been prepared as the amendments covered by these Regulations relate to existing arrangements for appeals.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1807 (Cy.175)

## AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Gorffennaf 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *15 Gorffennaf 2010* |
| *Yn dod i rym* | *9 Awst 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn a'r Rheoliadau y maent yn eu diwygio, Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006 ("y prif Reoliadau"), yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae cyfeiriadau at offerynnau'r UE yn yr Atodlen i'r prif Reoliadau. Mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i unrhyw gyfeiriad yn y prif Reoliadau at offerynnau'r UE gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

(**1**) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59 a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) 1972 p.68.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 1807 (W.175)

## AGRICULTURE, WALES

## The Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) (Amendment) Regulations 2010

| | |
|---|---|
| *Made* | *13 July 2010* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *15 July 2010* |
| *Coming into force* | *9 August 2010* |

The Welsh Ministers are designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) in relation to the common agricultural policy of the European Union.

These Regulations and the Regulations they amend, the Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) Regulations 2006 ("the principal Regulations"), make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972. References are made to EU instruments in the Schedule to the principal Regulations. It appears to the Welsh Ministers that it is expedient for any reference in the principal Regulations to EU instruments to be construed as a reference to those instruments as amended from time to time.

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the European Communities Act 1972.

(**1**) S.I. 2005/2766. By virtue of sections 59 and 162 of, and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, functions conferred upon the National Assembly for Wales are exercisable by the Welsh Ministers.

(**2**) 1972 c.68.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru, a deuant i rym ar 9 Awst 2010.

**Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006**

**2**.-(1) Diwygir Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) 2006(**1**) yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1) ac yn yr Atodlen disodler cyfeiriadau at "y ddeddfwriaeth Gymunedol" gyda chyfeiriadau at "deddfwriaeth yr UE".

(3) Yn rheoliad 2(2) yn lle'r cyfeiriad at "offeryn Cymunedol" rhodder cyfeiriad at "offeryn UE".

(4) Yn yr Atodlen ar ôl paragraff (12) ychwaneger-

"**13**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1857/2006 dyddiedig 15 Rhagfyr 2006 ar gymhwysiad Erthyglau 87 ac 88 o'r Cytuniad at gymorth Gwladwriaethol i fentrau bychain a chanolig eu maint sy'n weithgar yn cynhyrchu cynnyrch amaethyddol ac yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 70/2001(**2**).

**14**. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 dyddiedig 19 Ionawr 2009 sy'n sefydlu rheolau cyffredin ar gyfer cynlluniau cymorth uniongyrchol i ffermwyr o dan y polisi amaethyddol cyffredin ac yn sefydlu cynlluniau cymorth penodol i ffermwyr(**3**).

**15**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1120/2009 dyddiedig 29 Hydref 2009 yn gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu cynllun y taliad sengl y darperir ar ei gyfer yn Nheitl III o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 sy'n sefydlu rheolau cyffredin ar gyfer cynlluniau cymorth uniongyrchol i ffermwyr o dan y polisi amaethyddol cyffredin ac yn sefydlu cynlluniau cymorth penodol i ffermwyr(**4**).

**16**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1121/2009 dyddiedig 29 Hydref 2009 yn gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 parthed y cynlluniau cymorth i ffermwyr y darperir ar eu cyfer yn Nheitlau IV a V o'r Rheoliad hwnnw(**5**).

(**1**) O.S. 2006/3342 (Cy.303) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2900 (Cy. 251).

(**2**) O.J. Rhif L 358, 16.12.2006, t.3.

(**3**) O.J. Rhif L 30, 31.1.2009, t.16.

(**4**) O.J. Rhif L 316, 2.12.2009, t.1.

(**3**) O.J. Rhif L 316, 2.12.2009, t. 27.

**Title, application, commencement**

**1**.-(1) The title of these Regulations is the Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) (Amendment) Regulations 2010.

(2) These Regulations apply in relation to Wales, and come into force on 9 August 2010.

**Amendments to the Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) Regulations 2006**

**2**.-(1) The Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) Regulations 2006(**1**) are amended in accordance with this regulation.

(2) In regulation 2(1) and in the Schedule replace references to "Community legislation" with references to "EU legislation".

(3) In regulation 2(2) replace the reference to "a Community instrument" with a reference to "an EU instrument".

(4) In the Schedule after paragraph (12) add-

"**13**. Commission Regulation (EC) No 1857/2006 of 15 December 2006 on the application of Articles 87 and 88 of the Treaty to State aid to small and medium-sized enterprises active in the production of agricultural products and amending Regulation (EC) No 70/2001(**2**).

**14**. Council Regulation (EC) No 73/2009 of 19 January 2009 establishing common rules for direct support schemes for farmers under the common agricultural policy and establishing certain support schemes for farmers(**3**).

**15**. Commission Regulation (EC) No 1120/2009 of 29 October 2009 laying down detailed rules for the implementation of the single payment scheme provided for in Title III of Council Regulation (EC) No 73/2009 establishing common rules for direct support schemes for farmers under the common agricultural policy and establishing certain support schemes for farmers(**4**).

**16**. Commission Regulation (EC) No 1121/2009 of 29 October 2009 laying down detailed rules for the application of Council Regulation (EC) No 73/2009 as regards the support schemes for farmers provided for in Titles IV and V thereof (**5**).

(**1**) S.I. 2006/3342 (W. 303), as amended by S.I. 2007/2900 (W. 251).

(**2**) O.J. No L 358, 16.12.2006, p.3.

(**3**) O.J. No L 30, 31.1.2009, p.16.

(**4**) O.J. No L 316, 2.12.2009, p. 1.

(**5**) O.J. No L 316, 2.12.2009, p. 27.

**17**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1122/2009 dyddiedig 30 Tachwedd 2009 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 parthed traws-gydymffurfio, modiwleiddio a'r system integredig gweinyddu a rheoli, o dan y cynlluniau cymorth uniongyrchol i ffermwyr a ddarperir ar gyfer y Rheoliad hwnnw, yn ogystal ag ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 parthed traws-gydymffurfio o dan y cynllun cymorth a ddarperir ar gyfer y sector win(**1**).".

**17**. Commission Regulation (EC) No 1122/2009 of 30 November 2009 laying down detailed rules for the implementation of Council Regulation (EC) No 73/2009 as regards cross-compliance, modulation and the integrated administration and control system, under the direct support schemes for farmers provided for that Regulation, as well as for the implementation of Council Regulation (EC) No 1234/2007 as regards cross-compliance under the support scheme provided for the wine sector (**1**).".

*Elin Jones*

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

13 Gorffennaf 2010

13 July 2010

(**1**) O.J. Rhif L 316, 2.12.2009, t. 65.

(**1**) O.J. No L 316, 2.12.2009, p. 65.

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.00

W730/08/10 ON